

Colli cynefin

Colli cynefin



Cyflwyniad:

Dros amser, mae rhywogaethau'n addasu i'r amgylchedd maent yn byw ynddo. Cynefin yw'r enw ar gartref naturiol rhywogaeth. Mae cynefin yn cael ei golli pan nad yw'r amodau amgylcheddol bellach yn gallu cefnogi'r rhywogaeth sydd wedi addasu iddo. Gall hyn ddigwydd o ganlyniad i nifer o ffactorau gan gynnwys llygredd, newid hinsawdd, datgoedwigo, datblygiad a dwysâd amaethyddol.

Mae newidiadau i amodau neu golled cynefin llwyr yn golygu bod rhywogaethau'n colli eu lle ac yna bydd yn rhaid iddynt gystadlu gyda rhywogaeth na fyddant fel arfer yn cystadlu â hi am fwyd a lloches. Efallai y byddai'n rhaid iddynt ymdopi ag ysglyfaethwyr na fyddant fel arfer yn dod ar eu traws. Mae'r pwysau ychwanegol hwn yn golygu bod poblogaethau'n debygol o ddirywio.

Gall colli cynefin mewn un ardal roi pwysau ychwanegol ar gynefinoedd mewn ardaloedd eraill. Dim ond nifer penodol o unigolion y gall bob cynefin ei gefnogi. Os yw poblogaethau'n symud o un ardal i'r llall, efallai na fyddant yn ffynnu gan y byddai'r boblogaeth bresennol yn defnyddio'r holl adnoddau.

Mae amgylchedd iach yn cynnwys mosaig o gynefinoedd, lle gall anifeiliaid symud rhyngddynt yn rhydd. Mae hyn yn atal poblogaethau rhag mynd yn ynysig a mewnfridio. Wrth i gynefinoedd fynd yn fwy tameidiog, mae'r coridorau 'gwyrrdd' hyn yn dod yn fwy pwysig. Maent yn galluogi rhywogaethau i symud rhwng ardaloedd o gynefinoedd priodol, ac yn eu galluogi i gyflawni eu hanghenion goroesi.

Geiriau allweddol ymchwil pellach:

- Mae oddeutu hanner coedwigoedd gwreiddiol y byd wedi diflannu. Maent yn parhau i ddiflannu ar raddfa sydd 10 gwaith yn uwch nag unrhyw lefel bosibl o aildyfiant.
- Colli cynefin yw'r bygythiad mwyaf i rywogaethau ledled y byd.
- Yn y Deyrnas Unedig, mae adar tir amaeth wedi gostwng 56% rhwng 1970 a 2015.
- Dim ond 12% o goetiroedd yng Nghymru sy'n hynafol ac yn lled-naturiol, ac mae llawer ohonynt yn ddiraddiedig ac yn dameidiog.
- Mae Cymru wedi colli 30% o'i thwyni tywod ers 1900.

Geiriau allweddol er mwyn ymchwil pellach:

Adroddiad Sefyllfa Byd Natur, fortects difodiant (extinction vortex), coridor bywyd gwyllt, croesfan i lyffaint, pontydd gwyrdd, mapio cynefinoedd



Gêm lle diogel

Canllaw gweithgaredd:

Yr offer sydd ei angen:

- Cylchynnau hwla (Hula hoops) neu fatiau llawr
- Chwiban

Cyn y gêm:

1. Lledaenwch y cylchynnau hwla neu fatiau o gwmpas ardal y gêm i gynrychioli cynefinoedd yr anifeiliaid.

I chwarae'r gêm:

1. Eglurwch fod anifeiliaid yn defnyddio'u cynefinoedd fel lloches i'w cadw'n ddiogel rhag ysglyfaethwyr.
2. Mae'r dosbarth yn rhedeg o gwmpas ardal y gêm gan actio fel petaent yn bwydo.
3. Mae'r chwiban yn canu - mae hyn yn golygu perygl, mae'n rhaid i'r holl blant gyrraedd y cynefin diogel cyn i'r chwiban orffen.
4. Mae unrhyw un sydd heb gyrraedd yr ardaloedd diogel allan o'r gêm, ac mae'n rhaid iddynt eistedd ar yr ochr.
5. Ym mhob rownd, mae matiau / cylchynnau hwla yn cael eu tynnu, gan wneud y manau diogel yn llai ac ymhellach oddi wrth ei gilydd.
6. Yna, gellir trafod effeithiau colli cynefin, a gall y plant drafod faint anoddach ydoedd i gyrraedd man diogel wrth i'r cynefinoedd ddiflannu.

Paru'r cynefinoedd



Canllaw gweithgaredd:

Yr offer sydd ei angen:

- Printiwch daflen waith paru'r cynefinoedd ar gyfer bob disgybl

Atebion - Paru'r cynefinoedd



Paru'r cynefinoedd




Rheolau'r gêm: Parwch enw'r cynefin gyda'r llun a rhai o'r rhywogaethau sy'n byw yno drwy lunio llinell rhyngddynt.

Tir fferm



- Morlo llwyd
- Cranc y traeth
 - Dyfrgi

Arfordirol



- Glas y dorlan
 - Dyfrgi
 - Brithyll

Rhostir




- Tylluan wen
- Ysgyfarnog
- Bras melyn

Coetiroedd



- Brân goesgoch
 - Grug
 - Eithin

Dŵr croyw



- Moch daear
- Tylluan frech
- Sgrech y coed



Mae cyfanswm maint pob gardd yn y DU yn fwy nag ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol i gyd.



Coridorau

Canllaw gweithgaredd:

Yr offer sydd ei angen:

- Argraffwch y ddwy daflen waith 'Coridorau' ar gyfer pob disgybl
- Pensiliau neu bennau lliw
- Papur bras

I gwblhau'r daflen:

1. Eglurwch fod anifeiliaid yn defnyddio'u cynefinoedd i wahanol bethau a bod y gallu i symud rhwng gwahanol ardaloedd yn bwysig iawn.
2. Mae pob disgybl yn dechrau gweithio ar y daflen waith, gan geisio dod o hyd i ffordd o gynnwys gwahanol ddefnydd o dir wrth ddal i ganiatáu crwydro rhwng ardaloedd cynefin.
3. Mae'r disgyblion yn dyfeisio ac yn tynnu lluniau o ffyrdd i'r anifeiliaid groesi unrhyw beth sy'n rhwystro eu llwybr.

Coridorau



Coridorau bywyd gwyllt: Mae coridorau bywyd gwyllt yn ffordd o gadw cynefinoedd yn gysylltiedig, hyd yn oed pan fo datblygiadau newydd yn torri cysylltiad ardaloedd a oedd yn arfer bod yn gysylltiedig. Mae coridorau bywyd gwyllt yn galluogi anifeiliaid i symud yn ddiogel ar draws ardaloedd eang. Gallant fod ar nifer o ffurfiau yn cynnwys: gwrychoedd, ochrau ffyrdd, ymylau caeau a gerddi trefol.

Rheolau'r gêm: Mae'r grid eisoes yn cynnwys ffyrdd ac afonydd, ac mae'n rhaid i chi ychwanegu 30 sgwâr cynefin gwyrdd a 30 sgwâr tref coch i'r grid. Mae angen i chi wneud yn siŵr bod llwybr gwyrdd o'r dechrau i'r diwedd fel y gall anifeiliaid ei ddilyn yn ddiogel. Gallant ond symud rhwng y sgwariau sydd wrth ymyl ei gilydd, ond nid yn groeslinol.

Pryd bynnag mae'n rhaid i'ch llwybr groesi ffordd neu afon, mae'n rhaid i chi ddyfeisio ffordd ddiogel i'r anifeiliaid ei chroesi. Lluniwch a disgrifiwch eich dyfais isod:




Mae colli coedwigoedd yn achosi mwy o allyriadau CO² na holl drafnidiaeth y byd.

Gêm fwrdd coridor



Diwedd



Dechrau

30 sgwâr cynefin



30 sgwâr tref



Mae rhostir yn gynefin mwy
prin na fforestydd glaw.



Ticiwch bob sgwâr wrth i chi ei ychwanegu i'r grid